| Swydd-ddisgrifiad | |
|---|---|
| Teitl y Swydd: | **Pennaeth BAFTA Cymru** |
| Yn adrodd i: | **I'w gadarnhau** |
| Lleoliad y Swydd: | Mae'n rhaid i chi allu gweithio yn swyddfa Cymru 60% o'ch amser |
| Dyddiad Dechrau: | **ASAP** |
| Cyflog: | **Tua £50,000** |
| Math o Gontract: | **Parhaol / Mae yna bosibilrwydd i rannu swydd** |

**Diben y swydd**

Mae BAFTA Cymru yn bodoli i gyflawni strategaeth BAFTA yng Nghymru, ac i hyrwyddo, cefnogi a dathlu diwydiannau ffilm, gemau a theledu Cymru. Diben y rôl hon yw arwain y tîm yng Nghymru i wireddu strategaeth BAFTA, ac i sicrhau bod nodau ac amcanion elusennol BAFTA yn cael eu cyflawni mewn modd sy'n ystyried cyd-destun diwylliannol Cymru a'r diwydiant yng Nghymru. Bydd Pennaeth BAFTA Cymru yn gweithio'n agos gyda thîm arweinyddiaeth BAFTA, Cadeirydd a phwyllgor BAFTA Cymru a diwydiannau creadigol Cymru i gynrychioli cenhadaeth a diben BAFTA yng Nghymru.

**Bydd angen i chi allu:**

- Goruchwylio'r broses o redeg swyddfa BAFTA Cymru o ddydd i ddydd, gan reoli ac arwain y tîm.
- Cyflwyno Gwobrau Cymru o fewn y gyllideb ac yn brydlon, gan sicrhau bod y categorïau'n cyfleu amrywiaeth a chywreinrwydd allbwn Cymru:
    - Gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i: weithredu is-grwpiau, adolygiadau, galwadau am geisiadau, creu safle ceisiadau, pleidleisio, cynhyrchu, partneriaethau, cynlluniau byrddau, dylunio/graffeg, gwerthu, rheoli talent, rheoli cyllideb, cytundebau darlledu ac ati
- Cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer aelodau a rhanddeiliaid eraill perthnasol yn seiliedig ar y rhaglen olygyddol, ddysgu a gwobrau, fel y'i diffinnir gan strategaeth gyffredinol BAFTA, yn unol ag ymrwymiad BAFTA i amrywiaeth, cynhwysiant a chynaliadwyedd (mewn partneriaeth â changen gynaliadwyedd BAFTA, sef BAFTA albert)
- Cynrychioli strategaeth BAFTA gerbron Pwyllgor BAFTA Cymru, a chysylltu ag ef, a throsglwyddo gwybodaeth yn ôl i dîm Arweinyddiaeth BAFTA
- Cynrychioli BAFTA Cymru yn allanol, gan weithredu/cynnal perthnasoedd o fewn y diwydiannau ffilm, teledu a gemau yng Nghymru – e.e. y darlledwyr, y llywodraeth a chyrff llywodraethol fel Cymru Greadigol a Sefydliad Ffilm Prydain (BFI)
- Cynrychioli BAFTA Cymru yn fewnol (gyda'r staff ac o fewn pwyllgorau) a bwydo gwybodaeth i arweinwyr BAFTA yn rheolaidd
- Gweithio gyda thîm Aelodaeth BAFTA i recriwtio a chynnal aelodaeth gref yng Nghymru. Meithrin ysbryd cymunedol ymhlith aelodau cangen Cymru a chynrychioli buddiannau aelodau Cymru yn strategaeth aelodaeth gyffredinol BAFTA
- Gweithio'n agos gyda'r tîm Partneriaethau i gyflawni partneriaethau cenedlaethol ar gyfer BAFTA Cymru a rheoli partneriaethau sydd eisoes yn bodoli (e.e. â'r llywodraethau datganoledig, noddwyr yng Nghymru ar gyfer gwobrau/digwyddiadau ac ati)
- Gweithio gyda'r tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu i sicrhau ein bod yn datblygu ein cynulleidfaoedd targed allweddol a'n bod yn cyfathrebu mewn ffordd sy'n briodol i Gymru
- Rheoli'r gyllideb ar gyfer y Gangen

195 Piccadilly, Llundain W1J 9LN
Ff +44 (0)20 7733 0022 E info@bafta.org
www.bafta.org

Mae'r Academi wedi ymrwymo i helpu i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd trwy gyrchu a defnyddio adnoddau'n gyfrifol. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 617869. Elusen Gofrestredig Rhif 216726.

**Yn ddelfrydol, bydd gennych:**

- Brofiad o reoli digwyddiadau ar raddfa fawr
- Hanes cryf o weithio gyda nifer o wahanol randdeiliaid yn fewnol ac yn allanol, a sgiliau dylanwadu rhagorol
- Y gallu i ysgrifennu a siarad Cymraeg – mae hyn yn ddymunol ond nid yn hanfodol
- Gwybodaeth dda am Ddiwydiannau Creadigol Cymru a'u heriau a'u cryfderau penodol
- Sgiliau rhwydweithio cryf a phrofiad o ffurfio partneriaethau cydfuddiannol ag amrywiaeth o sefydliadau (nawdd a phartneriaethau cyflawni/mewn nwyddau neu wasanaethau)
- Profiad o weithio gyda chyllidebau cymhleth

**Yn ddelfrydol, byddwch:**

- Yn gydweithredwr ac yn ddylanwadwr
- Yn gallu arwain pobl yn gryf
- Yn wrandäwr gweithredol ac empathetig
- Yn gallu rhannu negeseuon clir a gwneud syniadau cymhleth yn hawdd i bawb eu deall
- Yn feddyliwr strategol a chreadigol

## YNGLŶN Â BAFTA

Mae **BAFTA** yn elusen gelfyddydau arweiniol sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo creadigrwydd, cyfle a newid cymdeithasol i bawb trwy bŵer trawsffurfiol ffilm, gemau a theledu.

**Diben BAFTA:**
*Cyfoethogi'r cyd-destun diwylliannol. Sicrhau chwarae teg. Bod yn flaengar. Ysbrydoli a dathlu.*

**Cenhadaeth BAFTA:**
*Rydym yn hyrwyddo ymarferwyr ym myd ffilm, gemau a theledu, ni waeth beth fo'u cefndir a'u profiadau bywyd. Rydym yn darparu cymuned i'n haelodau ac yn ymdrechu i gyflawni arferion diwylliannol a diwydiant blaengar. Rydym yn cydnabod dawn eithriadol i adrodd straeon trwy ein gwobrau.*

**Gweledigaeth BAFTA:**
*Bydd pobl o bob cefndir yn cael cyfle i ffynnu yn niwydiannau'r sgrîn, gan gyflwyno straeon cyfoethog a mwy amrywiol i ni eu dathlu.*

**Byddwch yn cael y canlynol ar ben eich cyflog:**

- Gwyliau – 29 diwrnod y flwyddyn yn ogystal â gwyliau banc
- Pensiwn – pensiwn cyfrannol 8%
- Cynllun iechyd 'arian yn ôl' ar gyfer cyflogeion
- Yswiriant salwch tymor hir
- Yswiriant bywyd – bedair gwaith eich cyflog sylfaenol blynyddol
- Rhaglen Cymorth i Gyflogeion – mynediad cyfrinachol 24/7 at wasanaethau arbenigol gan gynnwys cwnsela, lles, a chyngor cyfreithiol ac ariannol annibynnol
- Cynllun Beicio i'r Gwaith a benthyciad tocyn tymor
- Mynediad i sinemâu ledled y Deyrnas Unedig ac i ddigwyddiadau BAFTA

## MONITRO AMRYWIAETH

195 Piccadilly, Llundain W1J 9LN
Ff +44 (0)20 7733 0022 E info@bafta.org
www.bafta.org

Mae'r Academi wedi ymrwymo i helpu i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd trwy gyrchu a defnyddio adnoddau'n gyfrifol. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 617869. Elusen Gofrestredig Rhif 216726.

Rydym eisiau i'n staff fod yn gymysgedd amrywiol o bobl ddawnus sydd am ddod i wneud eu gwaith gorau. Mae BAFTA wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth, a chynnal diwylliant cynhwysol yn y gweithle. Croesawn geisiadau gan yr holl ymgeiswyr cymwys, ni waeth beth fo'u hethnigrwydd, hil, rhywedd, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, statws priodasol neu b'un a oes ganddynt anabledd ai peidio. Gofynnir i chi lenwi ein *Harolwg Monitro Amrywiaeth*. Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn ddienw ac ni fydd yn cael ei hystyried gyda'ch cais.

**Y WEITHDREFN YMGEISIO**

Cyflwynwch gais yma gan gynnwys llythyr eglurhaol nad yw'n fwy na 500 o eiriau sy'n esbonio pam rydych yn credu eich bod yn addas i'r swydd hon, pa sgiliau sydd gennych chi i lwyddo yn y rôl, ac yn enwedig, pa brofiad/adnabyddiaeth sydd gennych chi mewn cysylltiad i ddyletswyddau'r swydd os gwelwch yn dda.

Anogwn yr holl ymgeiswyr i rannu sut gallent berfformio orau drwy gydol ein proses recriwtio. Fel y cyfryw, os hoffech i ni addasu'r broses er mwyn i chi ddisgleirio, cysylltwch â ni: recruitment@bafta.org.

195 Piccadilly, Llundain W1J 9LN
Ff +44 (0)20 7733 0022   E info@bafta.org
www.bafta.org

Mae'r Academi wedi ymrwymo i helpu i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd trwy gyrchu a defnyddio adnoddau'n gyfrifol. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 617869. Elusen Gofrestredig Rhif 216726.